**RHYBUDD O WNEUD**

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint**
**(Drury Lane, Bannel Lane a Padeswood Road South, Bwcle) (Station Road, Talacre)**
**(Terfynau Cyflymder 40mya) 2023**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn rhoi rhybudd trwy hyn bod wedi gwneud wedi gwneud Gorchymyn ar 14 Medi 2023 drwy arfer ei bwerau dan Adrannau 82 (2) (a) ac 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a'r holl bwerau galluogi eraill, a fydd yn:-

a) Gosod cyfyngiad cyflymder o 40mya ar y darnau o ffordd a nodir yn Atodlen 1 a 2 i'r hysbysiad hwn.

**ATODLEN 1**
**Terfyn Cyflymder 40mya**

**Padeswood Road South, Bwcle:**
O bwynt 127 metr i'r gogledd o'i chyffordd â'r A5118, i bwynt 81 metr i'r de o'i chyffordd â Ffordd Ddol Gwyn.

**Drury Lane, Bwcle:**
O'i chyffordd â Chylchfan Cyfnewidfa Dobshill, i bwynt 74 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Clydesdale Road.

**Slack Lane, Bwcle:**
O'i chyffordd â Drury Lane, am bellter o 150 metr tua'r Gogledd Ddwyrain.

**Bannel Lane, Bwcle:**
O bwynt 103 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â Little Mountain Road,. i bwynt 421 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Westbury Drive.

**ATODLEN 2**
**Terfyn Cyflymder 40mya**

**Station Road, Talacre:**
O'i chyffordd â'r A548, am bellter o 563 metr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain

Os ydych yn dymuno gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a ddaw i rym ar 25 Medi 2023, cynlluniau'n dangos y ffyrdd a effeithir arnynt gan y Gorchymyn a datganiad o resymau'r cyngor dros y Gorchymyn, yn ystod oriau swyddfa arferol Sir y Fflint yn Cysylltu, Llyfrgell Bwcle, Y Ganolfan Siopa, Bwcle, Sir y Fflint, CH7 2EF, Sir y Fflint yn Cysylltu, 24 Y Stryd Fawr, Treffynnon, CH8 7LHneu fe allwch eu gweld ar ein gwefan www.siryffint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy e-bostio streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352701234.



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug Sir y Fflint. CH7 6NF
Dydd Gwener 22 Medi 2023.

Dyddiedig 14 Medi 2023

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Drury Lane, Bannel Lane a Padeswood Road South, Bwcle) (Station Road, Talacre) (Terfynau Cyflymder 40mya) 2023**

**GORCHYMYN**

**fel y nodir oddi mewn**

Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NF

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Drury Lane, Bannel Lane a Padeswood Road South, Bwcle) (Station Road, Talacre) (Terfynau Cyflymder 40mya) 2023**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “y Cyngor”) wrth ddefnyddio’i bwerau dan Adran 82 (2) (a), 84 o’r Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “Deddf 1984”) a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

2. Ni chaiff unrhyw berson yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr ar y darn o ffordd a nodir yn Atodlen 1 y Gorchymyn hwn.

3. Ni chaiff unrhyw berson yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr ar y darn o ffordd a nodir yn Atodlen 2 y Gorchymyn hwn.

4. Ni fydd y ffordd a nodir yn Atodlen 2 y Rhybudd hwn bellach yn Ffordd Gyfyngedig at ddibenion Adran 81 o’r Ddeddf hon.

5. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongliad y Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 25 Medi 2023 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Drury Lane, Bannel Lane a Padeswood Road South, Bwcle (Station Road, Talacre) (Terfynau Cyflymder 40mya) 2023.

## ATODLEN 1
**<u>Terfyn Cyflymder 40mya</u>**

**Padeswood Road South, Bwcle:**
O bwynt 127 metr i’r gogledd o’i chyffordd â’r A5118, i bwynt 81 metr i’r de o’i chyffordd â Ffordd Ddol Gwyn.

**Drury Lane, Bwcle:**
O’i chyffordd â Chylchfan Cyfnewidfa Dobshill, i bwynt 74 metr i’r gogledd-orllewin o’i chyffordd â Clydesdale Road.

**Slack Lane, Bwcle:**
O’i chyffordd â Drury Lane, am bellter o 150 metr tua’r Gogledd Ddwyrain.

**Bannel Lane, Bwcle:**
O bwynt 103 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â Little Mountain Road,. i bwynt 421 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Westbury Drive.

## ATODLEN 2
**Terfyn Cyflymder 40mya**

**Station Road, Talacre:**
O'i chyffordd â'r A548, am bellter o 563 metr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain 20874

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR** )
**SIR Y FFLINT** ar y 14 )
diwrnod hwn o Medi 2023 ym mhresenoldeb :- )

VICE **Y CADEIRYDD**

**PRIF ~~SWYDDOG (LLYWODRAETHU~~)**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**~~UWCH GYFREITHIWR~~**

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint
(Drury Lane, Bannel Lane a Padeswood Road South, Bwcle) (Station Road, Talacre)
(Terfynau Cyflymder 40mya) 2023**

**DATGANIAD O’R RHESYMAU DROS GYNNIG GWNEUD Y GORCHYMYN**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnig y canlynol:

a. Newid y terfyn cyflymder 20mya presennol ar ffyrdd Padeswood Road South, Bannel Lane a Drury Lane ym Mwcle i derfyn cyflymder 40mya. Bydd y terfyn cyflymder 40mya arfaethedig ar Drury Lane yn ymestyn at gylchfan Cyfnewidfa Dobshill, gan ostwng rhan o’r Terfyn Cyflymder Cenedlaethol i 40mya.
b. Newid rhan o’r terfyn cyflymder 30mya presennol ar Station Road, Talacre, i derfyn cyflymder 40mya.

Mae’r Awdurdod yn adolygu’r holl derfynau cyflymder o fewn y Sir, mewn perthynas â’u haddasrwydd i’r ddeddfwriaeth ac mae’r ffyrdd a restrir uchod yn ffurfio rhan o hyn.

Mae Asesiad Cyflymder mwy diweddar wedi’i gynnal, sydd wedi dod i’r casgliad bod y Terfyn Cyflymder 20mya ar Drury Lane, Bannel Lane a Padeswood Road South, Bwcle, a 30mya ar Station Road, Talacre, yn anaddas ar gyfer y ffyrdd hyn pan aseswyd hwy yn unol â chanllawiau presennol.

Nod sylfaenol yr adolygiad yw darparu rhwydwaith priffyrdd diogel ac effeithlon, gyda cherbydau yn teithio ar gyflymder priodol ar gyfer nodweddion y ffordd a bydd yn sicrhau cysondeb terfynau cyflymder drwy rwydwaith priffyrdd y Sir.


Os yw’r terfyn cyflymder yn cael ei osod yn afrealistig o isel ar gyfer swyddogaeth a chyflwr y ffordd benodol, mae’n debyg y bydd yn aneffeithiol ac mae’n bosibl na fydd gyrwyr yn cydymffurfio â’r terfyn cyflymder. Mae gyrwyr yn debygol o gydymffurfio gyda therfynau cyflymder is, a’u parchu, lle gallant weld bod yna beryglon posibl, er enghraifft y tu allan i ysgolion, mewn pentrefi neu ardaloedd preswyl / poblog a strydoedd siopa.


Mae’r Awdurdod yn parhau â’i gyfrifoldeb i ystyried darpariaeth symudiad cyfleus a diogel cerbydau modur a thraffig arall, ac mae’r mesurau a gynigir yn ceisio sicrhau bod y perygl yn cael ei leihau i bobl sy’n defnyddio’r ffordd yn ogystal â gwella amwynderau yn yr ardal.


Manylir ar y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF
Dydd Gwener, 22 Medi 2023


N
W
E
S
KEY
Terfyn Cyflymder 40mya
40mph Speed limit
PRELIMINARY
APPROVAL
CONSTRUCTION
CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL
StreetScene
40 Speed Limit
Terfyn Cyflymder 40mya
DRURY LANE, BUCKLEY
Sheet 1 of 1
1: NTS
HT/23/DLBuckley/201
C1


KEY
Terfyn Cyflymder 40mya
40mph Speed limit
N
E
S
W
Little Mountain
Pond
Brook Farm
Bannel Bridge
LITTLE MOUNTAIN ROAD
Woodland View
MEADOW VIEW
PRELIMINARY
APPROVAL
CONSTRUCTION
Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council
StreetScene
40 Speed Limit
Terfyn Cyflymder 40mya
BANNEL LANE, BUCKLEY
Sheet 1 of 1
1 NTS
HT/23/BLBuckley/201
C1




**KEY**

Terfyn Cyflymder 40mya
40mph Speed limit

PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION


CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL
StreetScene

40 Speed Limit
Terfyn Cyflymder 40mya

PADESWOOD RD SOUTH, BUCKLEY

Sheet 1 of 1

Scales at A1: 1:NTS
Drawing No: HT/23/PRSBuckley/201
C1



## KEY

| | |
|---|---|
| (blue line) | Terfyn Cyflymder 40`mya<br>40mph Speed limit |

PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION

| Rev | Revision Details | Rev'd | Check | Date |
|---|---|---|---|---|

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council
StreetScene

40 Speed Limit
Terfyn Cyflymder 40`mya

Station Road, Talacre

Sheet 1 of 1

Flintshire County Council - Environment Directorate - County Hall, Mold CH7 6NF

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Contact Name | Nick Williams | Telephone | | |
| Drawn by | Nick Williams | Fax No. | | |
| Checked by | Richard Flood | Date | July 2023 | Sheet 1 of 1 |
| Scales at A1: 1 NTS | Drawing No: HT/23/Talacre/201 | | | C1 |